IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 6 HYDREF 2017

Yn bresenol: Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd)

Cynghorwyr Lancaster a/ac Williams

7 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

8 : CAIS I GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - THE BOTANIST, CHURCH STREET

Ymgeisydd: Chris Hill, CEO New World Trading Company
Anthony Lyons, Cyfreithiwr yn cynrychioli New World Traading Company

Awdurdodau Cyfrifol
Tony Bowley, Heddlu De Cymru
Rob Gunstone, Heddlu De Cymru
Rhys Morgan, Gorfodi Trwyddedu, Cyngor Caerdydd

Cais:

Cafwyd cais i ddyfarnu Trwydded Safle gan New World Trading Company (UK) Limited o ran Uned D, 5-10 Church Street, Caerdydd, CF10 1BG.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am Drwydded Safle ar gyfer y safle uchod ac wedi disgrifio’r safle fel a ganlyn:

‘Bwyty a bar yn masnachu fel The Botanist’

Cynigir y gweithgaredd trwyddedadwy canlynol.

1 Darparu cerddoriaeth fyw (dan do):
Dydd Llun i Ddydd Sul 10:00 i 02:00
O ddechrau’r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau’r oriau a ganiateir ar Nos Galan.
Awr ychwanegol ar ddiwrnod Amser Haf Prydeinig i ddadrymu ei effaith.

2 Darparu cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do):
Dydd Llun i Ddydd Sul 10:00 i 02:00
O ddechrau’r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau’r oriau a ganiateir ar Nos Galan.
Awr ychwanegol ar ddiwrnod Amser Haf Prydeinig i ddadrymu ei effaith.

3 Darparu lluniaeth hwyr y nos:
Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 02:00
Nos Galan: 23:00 tan 05:00
Awr ychwanegol ar ddiwrnod Amser Haf Prydeinig i ddadrymu ei effaith.

4 Cynnig alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Llun i Ddydd Sul 08:00 i 02:00
O ddechrau’r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau’r oriau a ganiateir ar Nos Galan.
Awr ychwanegol ar ddiwrnod Amser Haf Prydeinig i ddadrymu ei effaith.

Sylwadau’r Awdurdod Cyfrifol

Rhoddwyd gwybod i Aelodau’r Is-bwyllgor cyn dechrau’r drafodaeth ac ar ôl rhagor fod yn rhaid dod i gytundeb; mae’r amser cau o ddydd Llun i ddydd Sul wedi’i ddiwygio i 0.100 ac mae’r cais gan Heddlu De Cymru am amod 17 wedi’i dynnu’n ôl.

Dywedodd Rhys Morgan, Gorfodi Trwyddedu, Cyngor Caerdydd nad oedd ganddo sylwadau gwrthwynebol i’w gwneud yn sgîl y cytundeb y daethpwyd iddo.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Rhoddodd Anthony Lyons lyfryn eiddo i Aelodau a roddodd wybodaeth am sefydliadau tebyg a weithredir gan World Trading Company.

Cafodd Aelodau wybod y bydd y llawr gwaelod yn neuadd groesawu’n unig, a bydd grisiau a lifft i’r llawr cyntaf; bydd hefyd teras to. Mae o leiaf 75% o'r ardal gyhoeddus yn cynnwys byrddau a chadeiriau Bydd staff cyfarch a gorsafoedd gweinwyr.

Bydd The Botanist yn y categori defnydd cyfunol sy’n nodi na chaiff y busnes effeithio’n negyddol ar yr amcanion trwyddedu, yn wir bydd effaith gadarnhaol a chafwyd trafodaethau â landlordiaid yn yr ardal ac mae sefydliadau o safon uwch yn cael eu hannog yn yr ardal.

Holodd Aelodau am yr effaith o sŵn cerddoriaeth fyw ar y teras to a chawsant wybod fod ganddynt lwyfan bandiau tebyg mewn safleoedd eraill ac na chafwyd unrhyw achosion yn y safleoedd hynny. Mae un o’r safleoedd hefyd drws nesaf i eglwys ac nid oes problemau sŵn wedi’u codi gan awdurdodau’r Eglwys.

Yn gryno, cafodd Aelodau wybod bod y safle’n un premiwm, wedi’i osod yn hyfryd; ag eisteddleoedd yn bennaf; yn fwyty ac yn far sy’n cael ei reoli’n arbennig o dda sy’n denu cwsmeriaid aeddfed ac ystyrlon; felly yn hytrach nag ychwanegu effaith gronnol negyddol, bydd The Botanist yn ychwanegiad cadarnhaol i Ganol Dinas Caerdydd.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu’r Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.